

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

4 Ebrill 2022

Goruchwylio a chraffu ar y gyllideb yn effeithiol

Annwyl Weinidog,

Diolch am eich llythyr ar 25 Mawrth 2022 ynghylch sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb. Hefyd, hoffwn ddiolch i chi a'r Grŵp am fy ngwahodd, yn fy rôl fel Cadeirydd, i ddod i gyfarfod cyntaf y Grŵp adeg ei sefydlu ar 30 Mawrth.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid (a'r Pwyllgor a oedd yn ei ragflaenu) wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd craffu ar y gyllideb yn y Senedd yn cael ei wella'n barhaus a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y broses a chyfrannu eu barn nid yn unig at y gwaith craffu ond at y ffordd y caiff blaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru eu pennu. Fel Pwyllgor, rydym wedi cyflwyno ein gwelliannau ein hunain i'r broses o graffu ar y gyllideb, fel ein digwyddiad/gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid blynyddol, sy'n cyfrannu at ein dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn dan arweiniad y Pwyllgor ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas ag archwilio sut y gall y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ymgysylltu ar y cyd, er fy mod yn gwerthfawrogi manteision y dull hwn er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion gan rhanddeiliaid, mae hefyd yn bwysig nodi bod digwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor yn cynnig fforwm lle gall rhanddeiliaid/sefydliadau, sy'n aml yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, siarad yn agored am effaith cyllidebau blynyddoedd blaenorol ac archwilio'r disgwyliadau a'r blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb sydd ar ddod. Rydym yn teimlo, felly, ei bod yn bwysig parhau i gadw ein gwaith ymgysylltu ar wahân. Fel y nodwyd uchod, mae'r ddadl ar flaenoriaethau dan arweiniad y Pwyllgor yn rhoi cyfle i ni rannu barn rhanddeiliaid â chi a gobeithio y gallwn ddylanwadu ar eich cynlluniau gwariant cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref.

Serch hynny, rydym yn agored i weithio gyda chi lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys trafod ffyrdd y gallwn amrywio ein gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cyrraedd sectorau o gymdeithas nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i chi am eich ymrwymiad i wella prosesau'r gyllideb a threthi a thrwy ystyried sawl un o argymhellion y Pwyllgor a wnaethom yn y maes hwn. Fel y soniais yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb, rydym yn awyddus i edrych ar ffyrdd y gall y Pwyllgor ymgysylltu â'r Grŵp ac ystyried sut y mae modd gwella tryloywder a'r gwaith o graffu ar y gyllideb yn y Senedd. Mae wedi bod yn her gyson i bwyllgorau'r Senedd ddeall sut mae cyllid yn gysylltiedig â chanlyniadau, felly mae'n galonogol gweld y cyfeiriwyd at hyn ar ddechrau'r Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb.

Briff technegol

Diolch i chi am eich cynnig i'r Pwyllgor gael sesiwn friffio dechnegol gan eich swyddogion cyn Mehefin 2022, er mwyn galluogi'r Aelodau i ddeall ac archwilio'n fanylach y camau gweithredu yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb. Bydd clerod y Pwyllgor yn cysylltu â'ch swyddfa i drefnu dyddiad addas.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i chi am eich ymrwymiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y Grŵp Cynghori ar Effaith a Gwella'r Gyllideb, drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng eich swyddogion a chlerod y Pwyllgor.

Protocol y gyllideb ac adolygu

Er ein bod yn croesawu'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i broses y gyllideb, roedd y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn awyddus i ddiwygio'r broses o graffu ar y gyllideb a symud i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb. O ystyried bod "amgylchiadau eithriadol" wedi effeithio ar gyllidebau Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd diwethaf oherwydd Brexit a'r pandemig, nid ydym eto wedi profi "blwyddyn arferol" o graffu ar y gyllideb. Yn dilyn cylch y gyllideb eleni, byddwn yn awyddus i ystyried pa mor ddigonol yw protocol presennol y Gyllideb. Hefyd, fe wnaeth y Pwyllgor blaenorol alw am sefydlu grŵp annibynnol i adolygu'r broses bresennol ar gyfer cytuno ar y gyllideb.

At hynny, mae ein trafodaethau ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) wedi taflu goleuni pellach ar fanteision proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb neu Fil cyllid wrth i drethi Cymru dyfu.

Mae'n hollbwysig bod gennym broses ar gyfer y gyllideb sy'n gweddu i ddeddfwrfa fodern ac sy'n parchu ei mandad democrataidd. Edrychaf ymlaen at barhau i archwilio'r materion hyn gyda chi yn ystod y Senedd hon.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

